



**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

**OFFERYNNAU STATUDOL**

**STATUTORY INSTRUMENTS**

**2001 Rhif 2275 (Cy. 165 )**

**2001 No. 2275 (W. 165 )**

**LLYWODRAETH LEOL,  
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,  
WALES**

**Rheoliadau'r Comisiwn dros  
Weinyddu Lleol yng Nghymru a  
Chomisiynydd Lleol yng Nghymru  
(Swyddogaethau a Threuliau) 2001**

**The Commission for Local  
Administration in Wales and Local  
Commissioner in Wales (Functions  
and Expenses) Regulations 2001**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

*(This note is not part of the Regulation)*

O dan adran 68(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Deddf 2000), caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â thrin swyddogaethau Comisiynydd Lleol yng Nghymru a'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru o dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 1974 (Deddf 1974) fel pe baent yn cynnwys swyddogaethau penodedig o dan Ran III o Ddeddf 2000. Hefyd caiff y rheoliadau ddarparu i dreuliau'r Comisiwn o dan Ddeddf 1974 gynnwys treuliau Comisiynydd Lleol yng Nghymru o dan Ran III o Ddeddf 2000.

The National Assembly for Wales may, under section 68(3) of the Local Government Act 2000 (the 2000 Act), make regulations with respect to the treatment of functions of a Local Commissioner in Wales and the Commission for Local Administration in Wales under Part III of the Local Government Act 1974 (the 1974 Act) as including specified functions under Part III of the 2000 Act. The regulations may also provide for the expenses of the Commission under the 1974 Act to include the expenses of a Local Commissioner in Wales under Part III of the 2000 Act.

Yn y rheoliadau hyn, sy'n cael eu gwneud o dan adran 68(3), mae rheoliad 2 yn cymhwyso adran 23(11) (gofyniad i Gomisiynydd Lleol gynhyrchu adroddiad blynyddol ynghylch cyflawni swyddogaethau) o Ddeddf 1974 at swyddogaethau Comisiynydd Lleol o dan Ran II o Ddeddf 2000.

In these regulations, which are made under section 68(3), regulation 2 applies section 23(11) (requirement on a Local Commissioner to produce an annual report on the discharge of functions) of the 1974 Act to the functions of a Local Commissioner under Part III of the 2000 Act.

Mae Rheoliad 3 yn cymhwyso adrannau 23(12) (gofyniad i'r Comisiwn gynnal adolygiad bob tair blynedd o weithrediad Rhan III), (12A) (disgresiwn i'r Comisiwn roi cyngor a chanllawiau ynghylch Rhan III), (12B) (y personau y mae'n rhaid ymgynghori â hwy mewn perthynas â chanllawiau adran 23(12A)), (13) (cymhwyso Atodlen 4 at y Comisiwn), adran 23A (Adroddiadau Blynyddol o'r Comisiwn) ac Atodlen 4 (Y Comisiynau) at swyddogaethau'r Comisiwn o dan

Regulation 3 applies sections 23(12) (requirement on the Commission to undertake a tri-annual review of the operation of Part III), (12A) (discretion for the Commission to provide advice and guidance relating to Part III), (12B) (persons to be consulted with regard to section 23(12A) guidance), (13) (application of Schedule 4 to the Commission), section 23A (Annual reports from the Commission) and Schedule 4 (the Commissions) to the functions of the Commission

Ran III o Ddeddf 2000. under Part III of the 2000 Act.

Mae rheoliad 4 yn cymhwyso paragraff 6 o Atodlen 4 i Ddeddf 1974 fel bod treuliau'r Comisiwn o dan y Ddeddf honno yn cynnwys treuliau'r Comisiwn neu dreuliau Comisiynydd o dan Ran III o Ddeddf 2000.

Regulation 4 applies paragraph 6 of Schedule 4 to the 1974 Act so that the expenses of the Commission under that Act shall include the expenses of the Commission or a Commissioner under Part III of the 2000 Act.

**2001 Rhif 2275 (Cy. 165 )**

**LLYWODRAETH LEOL,  
CYMRU**

Rheoliadau'r Comisiwn dros  
Weinyddu Lleol yng Nghymru a  
Chomisiynydd Lleol yng Nghymru  
(Swyddogaethau a Threuliau) 2001

*Wedi'u gwneud*                      21 Mehefin 2001  
*Yn dod i rym*                      28 Gorffennaf 2001

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 68(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(a).

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru a Chomisiynydd Lleol yng Nghymru (Swyddogaethau a Threuliau) 2001 a deuant i rym ar 28 Gorffennaf 2001.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys yng Nghymru yn unig.

(3) Yn y Rheoliadau hyn -

ystyr "Deddf 1974" ("the 1974 Act") yw Deddf Llywodraeth Leol 1974(b);

ystyr "Deddf 2000" ("the 2000 Act") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000.

(4) Onid yw'n ymddangos bod yna fwriad i'r gwrthwyneb, bydd i'r ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn yr ystyr a roddir iddynt yn Neddf 1974 neu yn Neddf 2000 (yn ôl fel y digwydd).

**Cymhwyso darpariaethau Rhan III o Ddeddf 1974 at Swyddogaethau Comisiynydd Lleol yng Nghymru o dan Ran III o Ddeddf 2000**

2. At ddibenion adran 23(11) o Ddeddf 1974, bydd swyddogaethau Comisiynydd Lleol yng Nghymru o

---

(a) 2000 p.22.  
(b) 1974 p.7.

**2001 No. 2275 (W. 165 )**

**LOCAL GOVERNMENT,  
WALES**

The Commission for Local  
Administration in Wales and Local  
Commissioner in Wales (Functions  
and Expenses) Regulations 2001

*Made*                                      21st June 2001  
*Coming into force*                      28th July 2001

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred on it by section 68(3) of the Local Government Act 2000(a).

**Name, commencement, application and interpretation**

1.-(1) The name of these Regulations is the Commission for Local Administration in Wales and Local Commissioner in Wales (Functions and Expenses) Regulations 2001 and they shall come into force on 28th July 2001.

(2) These Regulations apply in Wales only.

(3) In these Regulations -

"the 1974 Act" means the Local Government Act 1974(b);

"the 2000 Act" means the Local Government Act 2000;

(4) Unless the contrary intention appears, expressions used in these Regulations shall have the meaning given to them in the 1974 Act or the 2000 Act (as the case may be).

**Application of provisions of Part III of the 1974 Act to the Functions of a Local Commissioner in Wales under Part III of the 2000 Act**

2. For the purposes of section 23(11) of the 1974 Act the functions of a Local Commissioner in Wales under

---

(a) 2000 c.22.  
(b) 1974 c.7.

dan Ran III o Ddeddf 1974 yn cynnwys swyddogaethau'r Comisiynydd o dan Ran III o Ddeddf 2000.

**Cymhwyso darpariaethau Rhan III o Ddeddf 1974 at Swyddogaethau'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru o dan Ran III o Ddeddf 2000**

3. At ddibenion adrannau 23(12), (12A), (12B) a (13), a 23A o Ddeddf 1974 ac Atoden 4 iddi, bydd swyddogaethau'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru yn cynnwys ei swyddogaethau o dan Ran III o Ddeddf 2000.

**Treuliau'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru neu Gomisiynydd Lleol yng Nghymru o dan Ran III o Ddeddf 1974 i gynnwys treuliau o dan Ran III o Ddeddf 2000**

4. At ddibenion paragraff 6 o Atodlen 4 i Ddeddf 1974, bydd treuliau'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru o dan Ran III o Ddeddf 1974 yn cynnwys treuliau'r Comisiwn, neu dreuliau Comisiynydd Lleol yng Nghymru, o dan Ran III o Ddeddf 2000.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a).

21 Mehefin 2001

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Part III of the 1974 Act shall include the Commissioner's functions under Part III of the 2000 Act.

**Application of provisions of Part III of the 1974 Act to the Functions of the Commission for Local Administration in Wales under Part III of the 2000 Act**

3. For the purposes of sections 23(12), (12A), (12B) and (13) and 23A of and Schedule 4 to the 1974 Act the functions of the Commission for Local Administration in Wales shall include its functions under Part III of the 2000 Act.

**Expenses of the Commission for Local Administration in Wales or a Local Commissioner in Wales under Part III of the 1974 Act to include expenses under Part III of the 2000 Act**

4. For the purposes of paragraph 6 of Schedule 4 of the 1974 Act expenses of the Commission for Local Administration in Wales under Part III of the 1974 Act shall include expenses of the Commission, or a Local Commissioner in Wales, under Part III of the 2000 Act.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a).

21st June 2001

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38

© Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**£1.75**

W/324/07/01

ON

(a) 1998 c.38.

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090279-3



9 780110 902791